# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0229(RAF) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar 19 Mawrth 2008

**At Andrew R.T. Davies:**

Fe gytunais i adrodd yn ôl i chi ynglŷn eich cwestiynau’n ymwneud ag archebu a dosbarthu’r brechlyn rhag y tafod glas.

Fe hoffwn eich sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad wrthi’n cynnal trafodaethau â DEFRA, gweinyddiaethau datganoledig eraill, y cyflenwyr a’r rhanddeiliaid ynglŷn â chael mwy o gyflenwadau o’r brechlyn.

Er hynny, dylid nodi mai dim ond mewn Parth Gwarchod y mae modd defnyddio’r brechlyn o dan y rheoliadau Ewropeaidd cyfredol, a hynny pan fydd achosion o’r clefyd wedi’u cadarnhau. Mae’r Comisiwn wedi dweud na fyddant yn caniatáu brechu rhag y tafod glas mewn Parth Gwyliadwriaeth nac ychwaith mewn ardal sy’n rhydd o’r clefyd. Mewn ardal lle ceir caniatâd i ddefnyddio’r brechlyn, byddai’r milfeddygon yn dilyn y drefn arferol o archebu drwy gyfanwerthwyr, a byddai’r rhain yn eu tro yn cael cyflenwadau’n uniongyrchol o’r cyflenwr, Intervet.